

Baneri ysgol yn cyhwfan o furiau castell Harlech wrth i Wyl

Gregynog ddod i'r dref

Mae myfyrwyr o Ysgol Ardudwy wedi cydweithio â'r arlunydd enwog Luned Rhys Parri i nodi dyfodiad Gŵyl Gregynog ar gyfer pum niwrnod o ddatliadau. O dan gyfarwyddyd yr arlunydd bydd y disgyblion blwyddyn 7 yn creu baneri pasiantri gafaelgar i'w harddangos yng Nghastell Harlech yn ystod yr ŵyl nodedig.

Gwnaeth yr arlunydd arobryn Luned Rhys Parri ei henw trwy greu delweddau tri dimensiwn gwahanol a diddorol yn darlunio agweddau nodweddiadol ar fywyd Cymru. A hithau'n gweithio o'i stiwdio yn y Groeslon ger Caernarfon, mae'n creu cerfluniau allan o bapur a chyfryngau cymysg.

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri sy'n cydlynu'r prosiect a dywedodd y Pennaeth Addysg a Chyfathrebu Naomi Jones,

“Mae Luned yn gyfaill mawr i Eryri, a gweithiodd gyda'r Parc Cenedlaethol yn y gorffennol ar nifer o brosiectau treftadaeth ddiwylliannol ac rydym yn edrych ymlaen at ei chyfnod preswyl yn Harlech. Rydym i gyd yn awyddus i weld pa fath o faneri ardderchog y bydd disgyblion Ysgol Ardudwy yn eu creu o dan arweiniad arlunydd mor eithriadol.”

Gregynog yw gŵyl gerddoriaeth glasurol hynaf Cymru sy'n dal i gael ei chynnal, ond ei rhagflaenydd mwyaf arwyddocaol oedd Gŵyl Gerddorol Castell Harlech, sef yr ysbrydoliaeth ar gyfer rhaglen Gŵyl Gregynog eleni fel y mae'r curadur Rhian Davies yn esbonio,

“Mae dod â'r ŵyl i Harlech yn anrhydedd mawr a bydd gweld fy 20 mlynedd o ymchwil yn dod yn fyw yn y gymuned yn anhygoel. Un o'r uchafbwyntiau fydd yr ensemble pres Septura yn chwarae ffanfferau o fylchfuriau'r Castell yn ystod yr awr cyn eu cyngerdd ar 2 Gorffennaf, yn union fel yr arferent ei wneud yn Harlech gan mlynedd yn ôl.

“Mae pob cyngerdd yn yr Ŵyl eleni yn adfywio repertoire gan gyfansoddwyr sy'n gysylltiedig â Harlech, a chafodd llawer ohonynt eu hysgrifennu yn yr ardal a'u hysbrydoli gan dirweddau a chwedlau Cymru, sy'n amserol iawn gan ein bod yn cychwyn ar ein taith trwy Flwyddyn y Chwedlau yng Nghymru.”

Bydd yn achlysur cofiadwy wrth i dymor Pasiantri Gŵyl Gregynog ddod i Harlech o'r 28ain Mehefin tan yr 2il Gorffennaf ac mae disgyblion Ysgol Ardudwy wrth eu boddau yn cael bod yn rhan o'r digwyddiad fel y dywed Pennaeth Celf yr ysgol, Emma Marini,

“Mae gan Wyl Gregynog enw mor dda ac mae'r ffaith fod gan ei thema gysylltiad personol â Harlech yn wych. Fe fydd cynnwrf mawr yn y dref ac mae'r myfyrwyr yn gyffrous iawn am fod yn rhan o'r achlysur.”

Bydd y baneri maen nhw'n eu creu yn cael eu harddangos i bawb eu gweld trwy gydol yr Wyl ac mae hon yn ffordd arbennig o gael y plant i ymddiddori mewn celf fel mae'r arlunydd Luned Rhys Parri ei hun yn esbonio,

“Rwyf yn edrych ymlaen at weithio ar brosiect mor arbennig, mae hanes cyfoethog Gwyl Gregynog a phasiantau Harlech yn ysbrydoledig. Rwyf bob tro'n mwynhau gweithio gyda myfyrwyr lleol, a gweld beth fydd yr arlunwyr ifanc yn ei greu, ond anaml y caiff y gwaith gorffenedig y fath gyfle i gael ei arddangos.”

Yn ogystal â Chastell Harlech, bydd digwyddiadau'n cael eu cynnal ymhob rhan o'r dref, yn eu plith y Clwb Golff, y Neuadd Goffa a Choleg Harlech. Ychwanegiad arloesol fydd Croesi Traeth / Crossing A Beach, cynhyrchiad arbennig a gomisiynwyd gan Wyl Gregynog gan y cywaith dawn, Light, Ladd and Emberton, ac a berfformir i ymateb i'r llanwau ar Draeth Harlech. Cynhelir teithiau o leoliadau eiconig, gan gynnwys nifer o dai preifat a thaith arbennig ar Reilffordd Ffestiniog.

Mae'r prif artistiaid yn cynnwys y sielydd Narek Hakhnazaryan yn Eglwys Llandanwg, y fiolinydd Sara Trickey, y pianydd Clare Hammond, y gantores werin o Ynysoedd Heledd Joy Dunlop a'r chwaraewr pianola Rex Lawson yn Theatr Ardudwy.

Mae'r rhaglen gref o sgysiau yn cynnwys yr hanesydd Paul O'Leary ar Basiantau Harlech, y ffotograffydd Iestyn Hughes ar Alvin Langdon Coburn, Cuillin Bantock ar ei deulu cerddorol, a thaith gerdded dan arweiniad Sian Roberts.

Am wybodaeth bellach ac am docynnau ewch i www.gregynogfestival.org neu ffoniwch 01686 207100.

DIWEDD

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

Deian Creunant – deian.creunant@four.cymru / 01970 636419

Kate Patten – kate.patten@four.cymru / 01970 636401

Lluniau: Luned Rhys Parri a'i gwaith

Nodiadau i Olygyddion

Mae Gŵyl Gregynog yn brosiect ariannwyd gan arian loteri ar gyfer Cyngor Celfyddydau Cymru, yn Brosiect Arweiniol Uned Digwyddiadau Mawr Llywodraeth Cymru (Croeso Cymru), ac mae'r unig aelod o Gymru ar REMA, Rhwydwaith Cerddoriaeth Gynnar Ewrop sydd â'i bencadlys yn Versailles.

Gŵyl Gregynog, a gychwynnwyd gan y chwiorydd Gwendoline a Margaret Davies yn Neuadd Gregynog, Tregynon, ger Y Drenewydd yn 1933, yw gŵyl cerddoriaeth glasurol hynaf Cymru.

A hwythau'n wyresau'r diwydiannwr, yr entrepreneur a'r gwleidydd, David Davies, oedd yn hanu o Landinam, Powys, daethant yn ddyngarwyr a deithiai ar hyd a lled Ewrop oedd yn ymddiddori'n angerddol mewn celf a cherddoriaeth, gan gymynroddi mwy na 260 o weithiau o'u casgliad i Amgueddfa Genedlaethol Cymru yng Nghaerdydd, lle y mae llawer ohonynt i'w gweld heddiw.

Mae Gŵyl Gregynog yn denu ymwelwyr o bob rhan o'r byd i Gymru ac mae hefyd yn cael effaith gymdeithasol ac economaidd ar y gymuned leol trwy ei buddsoddiad mewn cyngherddau, gweithdai, sgwrsiau a phrosiectau allestyn.